

4.121

Iechydfa Gorllewin Cymru at y Darfodedigaeth.



THE SANATORIUM, ALLTYMNYDD

E. V. Collier.

*Here mid close belts of healing odorous pine,
For shelter from keen winds and drifting rain,
Drinking soft airs, the sufferers shall regain
New strength, new powers, to stay life's swift decline.
Heaven's pure breath, breathing round them day and night,
Shall arm them for the fight,
Revive again the feeble forces dim,
And calm the fluttering heart and nerve the faltering limb.*

SIR LEWIS MORRIS.

X205213633

214 W

CAN NEWYDD O GLÔD

I

SANATORIUM GALLTYMYNYDD

GAN Y PARCHEDIGION

D. H. DAVIES, gynt Ficer Cenarth,

ac

EVAN PHILLIPS, Castellnewydd Emlyn.



Mor wych yng nghamrau iechyd
Tywysa, dysg Walia'i gyd;
O gur blin y garw bla
Ysig werin ysgara.—*Brythonydd*.

Bydd Dyfed mwy â'i chalon hael a'i chod,
Yn un i Alltymynydd fry yn dod;
Cynheli hwn tae'th galon fach yn ddu,
Er mwyn y câr sŷn marw yn ei gur!

Dy nawdd a ga os gwelaist chwaer neu frawd
Ryw dro yn araf wywo ar eu rhawd:
Gwarafun! gwylia rhag it' wneuthur cam
A briw deimladau llawer tad a mam.

Ffynhonell hael yw, o obeithion gwiw
I natur wan anadla yn ei briw;
Yn dringo bydd dynoliaeth dan ei phwn,
Yn ffyddiog beunydd lethrau'r mynydd hwn.

Yng nghartre'r awel iach ar ael y wawr,
Lle chwery bywyd ar ei ffordd i lawr,
Cei yno natur wyw'n ail ddechreu byw,
Wrth dderbyn o newydd-deb cread Duw.

Cydgerdded â phelydrau cain y wawr,
Y byddo enw'r mynydd hwn i lawr;
Tra chynnar fedd a chlwyfus fam a thad,
Ei glodydd, fel y dydd, fo'n llanw'r wlad.

Dyrchafu llef mae Galltymynydd fry,
Ar Ddyfed oll i esgyn yno'n llu;
Dewch, meddai, dewch, na ddigalonwch mwy,
Mae gennyf falm i'ch ysgyfeiniol glwy'.

Mae bywyd yma'n gwisgo gwridd a gwên,
Ac angeu'n ymgrebychu'n wyw a hen;
Rhan ydyw hyn o'i fwyn Efengyl Ef
Fu gynt yn gwella cleifion gwlad a thref.

Yn ol i'w ffau y gelyn ffals a ffy,
Ei yrru gaiff dros gaer ein daear gu;
Y peswch cas a gilia draw yn llwyr,
A dôr y bedd ni egyr hyd yr hwyr.

Y fynwent mwy a dawel wisga'i gwyrdd,
Ni fydd angladdau plant yn duo'r ffyrdd;
Wylofain baid—y ddolef oer o hyd,
Ni thyr fel timestl ar lawenydd byd.

Yr aelwyd gyfan mwy yn llon a fydd
Gan ymgom byw a chân, heb welw rudd;
Aelwydydd claer y wlad, yn dra diglwy',
Ddadganant glod hen Alltymynydd mwy.

Caiff Galltymynydd fod yn ffenestr glir,
I weled trwyddi draw ragorach tir;
Dysgleirio mae tu hwnt i'r byd ym mhell
Flodeuog lan yr adgyfodiad gwell.

*Castellnewydd Emlyn,
Tachwedd, 1907.*

[*All Rights reserved.*]

ARTICLE — FRIDAY, MAY 21 1909

Correspondence

We wish it to be distinctly understood that we do not hold ourselves responsible for the opinions expressed by our Correspondents.

ALLTYMYNYDD SANATORIUM.

SIR,—I should feel much obliged if you would kindly allow me to acknowledge publicly, through the medium of your paper, that I am indebted to the Rev. D. H. Davies, the late vicar of Cenarth, for the sum of £5, being the amount realised by him on the publication of his poem on "The West Wales Sanatorium," and which he has most generously given as a five years' subscription to the Ceredigion branch of the Sanatorium Guild, of which I am vice-president.

With my most grateful thanks,

Yours truly,

AGNES REDDIE.

Penrallt, Cardigan,
May 17th, 1909.